SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME
COMMISSIONER NORTH WALES

# Cylchlythyr Newsletter

**Cylchlythyr #45 SCHTh Gogledd Cymru – 14 Mehefin 2024**
**OPCC North Wales Newsletter #45 – 14 June 2024**

## Y CHTh yn tanio haf o chwaraeon ar gyfer Gogledd Cymru

Hefo Ewro 2024 yn yr Almaen a Gemau Olympaidd a Pharalympaidd yr Haf ym Mharis yn prysur agosáu, mae cronfa newydd yn cael ei lansio sy'n ceisio helpu clybiau a sefydliadau chwaraeon ledled Gogledd Cymru gynnal gweithgareddau i bobl ifanc y rhanbarth dros y gwyliau.

Mae'r gronfa gyllido, a elwir yn Gronfa Chwaraeon yr Haf, wedi cael i'w lansio ar y 3ydd o Mehefin gan Andy Dunbobbin, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru. Mae'r Comisiynydd yn annog clybiau a sefydliadau ieuenctid wneud cais rŵan am y cyllid er mwyn talu am weithgareddau chwaraeon drwy gydol gwyliau'r haf.

Un o amcanion Cronfa Chwaraeon yr Haf ydy helpu mynd i'r afael â phroblemau ymddygiad gwrthgymdeithasol, a all yn aml gynyddu dros fisoedd yr haf, trwy gadw plant a phobl ifanc yn brysur mewn ffordd gadarnhaol, hyrwyddo gwaith tîm, ymarfer corff, ac awyrgylch hwyliog a chynhwysol i bawb. **Darllenwch fwy yma.**



## PCC fires the starting gun on a summer of sport for North Wales

With Euro 2024 in Germany and the Summer Olympic and Paralympic Games in Paris fast approaching, a new fund is being launched which aims to help sports clubs and organisations across North Wales put on activities for the young people of the region over the holidays.

Called the Summer Sports Fund, the funding pot was launched on the 3rd of June by North Wales Police and Crime Commissioner (PCC) Andy Dunbobbin, who is encouraging clubs and youth organisations to apply now for the funding to pay for sporting activities throughout the summer break.

One of the aims of the Summer Sports Fund is to help combat issues of anti-social behaviour, which can often spike over the summer months, by keeping children and young people occupied in a positive way, promoting teamwork, exercise, and a fun and inclusive atmosphere for everyone. **Read more here.**

---

## Chwalu rhwystrau mewn cerddoriaeth er mwyn helpu trechu trosedd yn Sir y Fflint

Ar 29 Mai, fe wnaeth Andy Dunbobbin, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, a Gareth Evans, Prif Gwnstabl Cynorthwyol Heddlu Gogledd Cymru, ymweld â Rockworks Academy yn Sefydliad Coffa Rhyfel Penyffordd a Phenymynydd ym Mhenyffordd, Sir y Fflint. Mae'r sefydliad yn fenter gymdeithasol sydd wedi ymroi gwneud cerddoriaeth yn hygyrch i bawb, lle bynnag maen nhw'n byw a beth bynnag fo'u hamgylchiadau nhw, boed hynny'n ariannol, yn gorfforol neu'n gymdeithasol.

Yn ddiweddar, llwyddodd y grŵp wneud cais am arian gan y fenter Eich Cymuned, Eich Dewis leol ar gyfer eu prosiect 'Chwalu Rhwystrau' ac aeth yr ymwelwyr draw i glywed mwy am y cynlluniau. Nod y prosiect ydy darparu hyfforddiant, sesiynau grŵp, a dosbarthiadau meistr i hyd yn oed mwy o bobl a galluogi grwpiau fel pobl ifanc sydd wedi'u heithrio'n gymdeithasol ac sydd wedi ymddieithrio brofi cerddoriaeth a'i gyflwyno i'w bywydau. **Darllenwch fwy yma.**



## Breaking down barriers in music to help fight crime in Flintshire

On 29 May, North Wales Police and Crime Commissioner Andy Dunbobbin and North Wales Police Assistant Chief Constable Gareth Evans visited the Rockworks Academy based at the Penyffordd and Penymynydd

War Memorial Institute in Penyffordd, Flintshire. The organisation is a social enterprise dedicated to making music accessible for all, wherever they live and whatever their circumstances, whether financial, physical or social.


The group was recently successful in applying for funding from the local Your Community, Your Choice initiative for their ‘Breaking Barriers’ project and the visitors went along to hear more about the plans. The project aims to provide tuition, group sessions, and masterclasses to even more people and to enable groups such as socially excluded and disengaged young people to experience music and introduce it into their lives. **Read more here.**

## Cyngor hanfodol i drigolion Gogledd Cymru ar brynu meddyginiaethau'n ddiogel ar-lein

Mae prynu meddyginiaethau a chynhyrchion cysylltiedig ar-lein yn hynod boblogaidd. P'un ai ar gyfer cyffuriau ar bresgripsiwn gan eich meddyg teulu neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall, meddyginiaethau 'dros y cownter' neu eitemau fel help hefo colli pwysau a chynnyrch gofal croen, mae prynu dros y rhyngrwyd yn cynnig cyfleustra a dewis enfawr.

Wrth lansio ymgyrch newydd ar gyfer mis Mehefin mewn cydweithrediad hefo Andy Dunbobbin, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ac Uned Troseddau Economaidd Heddlu Gogledd Cymru, rhybuddiodd Tony Neate, Prif Swyddog Gweithredol Get Safe Online: "Mae llawer o wefannau sy'n gwerthu cynnyrch o'r fath yn berffaith gyfreithlon. Ond fe ddylech chi bob amser fod yn ofalus wneud yn siŵr fod hyn yn wir am y rhai 'da chi'n eu defnyddio. Mi ddylech chi hefyd fod yn wyliadwrus fod yr hyn 'da chi'n ei brynu nid yn unig yn addas ar gyfer eich anghenion, ond yn saff i'w ddefnyddio hefyd."

Mae Get Safe Online yn brif ffynhonnell gwybodaeth deg, ffeithiol a hygyrch ar ddiogelwch ar-lein yn y DU. Mae'n wasanaeth wedi'i gomisiynu gan SCHTh a Heddlu Gogledd Cymru er mwyn rhannu gwybodaeth a chyngor defnyddiol hefo pobl yr ardal. **Darllenwch fwy yma.**



## Essential advice for North Wales residents on buying medicines safely online

Buying medicines, remedies and similar products online is very popular. Whether for drugs prescribed by your GP or another healthcare professional, 'over-the-counter' remedies or items like slimming aids and skincare products, buying over the internet offers massive convenience and choice.

Launching a new campaign for June in collaboration with North Wales Police and Crime Commissioner Andy Dunbobbin and North Wales Police's Economic Crime Unit, Tony Neate, CEO at Get Safe Online warned: "Many websites selling such products are perfectly legitimate, but you should always be careful to make sure that this is the case for ones you're using, and also that what you're buying is not only suitable for your needs, but safe to use as well."

Get Safe Online is a leading source of unbiased, factual and easy-to-understand information on online safety in the UK and is a service commissioned by the Office of the Police and Crime Commissioner and North Wales Police to share helpful information and advice with the people of the area. **Read more here.**

---

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES


Rydych chi'n derbyn yr e-bost hwn oherwydd eich bod wedi cofrestru i dderbyn ein e-byst cylchlythyrau.
You are receiving this email as you signed up to receive our newsletter updates.

Eisiau newid sut rydych chi'n derbyn yr e-byst hyn?
Cysylltwch â ni drwy socialmedia@northwales.police.uk i ddiweddaru eich dewisiadau neu ddad-danysgrifio o'r rhestr hon.

Want to change how you receive these emails?
Contact us via socialmedia@northwales.police.uk to update your preferences or unsubscribe from this list.



Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Pencadlys yr Heddlu
Glan y Don
Bae Colwyn
Conwy LL29 8AW

Office of the Police and Crime Commissioner North Wales
Police Headquarters
Glan y Don
Colwyn Bay
Conwy LL29 8AW



Gallwch ddarllen ein polisi preifatrwydd yma:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/cy/polisi-preifatrwydd

You can read our privacy policy here:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/privacy-policy